

**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF
PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 29 Ebrill
2021 am 3.00 pm

**Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn
bresennol:-:-**

Y Cyngorydd S Rees (Cadeirydd)

Y Cyngorydd G Caple Y Cyngorydd J Bonetto
Y Cyngorydd P Jarman Y Cyngorydd G Hughes
Y Cyngorydd W Owen Y Cyngorydd R Yeo
Y Cyngorydd D Williams Y Cyngorydd S Powderhill

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr J Bailey, Pennaeth Cynllunio
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr A Rees, Uwch Beiriannydd

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cyngorydd R Bevan

Y Cyngorydd M Powell

160 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gyngorwyr y Fwrdeistref Sirol D.
Grehan a J. Williams.

161 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau
mewn perthynas â'r Agenda.

**162 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI
DATBLYGU**

PENDERFYNWYD nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion
rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo
hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau,
wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd
sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i
hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

163 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

PENDERFYNWYD nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)
2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy
yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n
anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu

cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

164 COFNODION

PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 4 ac 11 Mawrth 2021 yn rhai cywir.

165 NEWID I DREFN YR AGENDA

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei ystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

166 CAIS RHIF: 20/1342

11 annedd fforddiadwy a gwaith cysylltiedig. Derbyniwyd cynllun safle diwygiedig (storfa finiau wedi'i hadleoli a man amwynder a rennir) a thrychloniau ychwanegol ynghylch llain 6, ar 9 Mawrth 2021, Hen safle Ysgol Gynradd Meisgyn, Heol yr Ysgol, Meisgyn, Pont-y-clun

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Mr Steffan Harries (Asiant)
- Ms Cheryl Baxter (Gwrthwynebydd)
- Mr Jared Torkington (Gwrthwynebydd)

Arferodd yr Asiant, Mr Steffan Harries, yr hawl i ymateb i sylwadau'r gwrthwynebwyr.

Darllenodd Pennaeth Materion Cynllunio gynnwys sylwadau ysgrifenedig gan y trigolion canlynol mewn perthynas â'u pryderon a'r gwrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig:

- Ms A Roche
- Mr a Mrs C Taylor
- Ms E Adkins
- Mr G Baxter
- Mr a Mrs Ash
- Dr C Moodley
- Mr D Matthews
- Mr a Mrs Arnold
- Ms S Nairn

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cynnig, **PENDERFYNWYD** gohirio'r cais er mwyn i'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu gynnal Archwiliad o'r Safle i ystyried effaith gorddatblygu ar y safle a phryderon ynghylch y priffyrdd.

(Nodwch: Cynigiwyd ac eiliwyd cynnig i gymeradwyo'r cais yn unol ag adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu. Nid oedd y cynnig yma'n llwyddiannus.)

167 CAIS RHIF: 19/1081

Cais materion wedi'u cadw'n ôl ar gyfer Cam 2, Parc Llanilid, Llanilid (10/0845/34) i gynnwys 421 eiddo preswyl a gwaith seilwaith cysylltiedig. Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig a/neu wybodaeth ychwanegol ar 07/12/20, 15/01/21, 18/02/21 a 31/03/21 (Derbyniwyd disgrifiad diwygiedig o'r datblygiad ar 14/01/21 a 31/03/21),

Y tir ar yr hen safle glo brig a'r tir i'r Gogledd o'r A473, Llanilid

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

168 CAIS RHIF: 20/1345

Amrywio amod 7 (gwerthu nwyddau) o ganiatâd cynllunio 98/4284/15, Ffordd Tirwaun, Cwm-bach, Aberdâr

PENDERFYNWYD gohirio'r cais fel bod modd i'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu gynnal Ymweliad Safle i ystyried effaith llifogydd ar y safle arfaethedig.

169 CAIS RHIF: 20/1346

Amrywio amod 1 o ganiatâd cynllunio 18/0366/39, Caeau Tirfounder, Cwm-bach

PENDERFYNWYD gohirio'r cais fel bod modd i'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu gynnal Ymweliad Safle i ystyried effaith llifogydd ar y safle arfaethedig.

170 CAIS RHIF: 21/0258

Estyniad llawr cyntaf arfaethedig y tu cefn i'r eiddo, 62 Stryd Albany, Glynrhedynog

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

171 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG

PENDERFYNODD yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 05/04/2021 – 16/04/2021.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.20 pm

**Y Cyngorydd S Rees
Cadeirydd.**